CCAUC

Grant CCAUC i Wasg Prifysgol Cymru

Cyhoeddwyd 10 Rhagfyr 2010

1 Mae CCAUC wedi bod yn rhoi cymorth ariannol i Brifysgol Cymru ar gyfer Gwasg Prifysgol Cymru ar ffurf grant wedi'i glustnodi blynyddol, a elwir yn Gronfa Cyhoeddiadau, ers 1998/99. Yn 2010/11 mae'r cymorth hwn yn £132k. Adeg sefydlu'r Cyngor, roedd hyn yn rhan o becyn ehangach o gymorth ariannol ar gyfer Prifysgol Cymru sydd wedi gostwng gyda threigl amser wrth i'r cyfrifoldeb dros lawer o swyddogaethau Prifysgol Cymru gael ei drosglwyddo fwyfwy i SAUau unigol.

2 Mae'r arian hwn wedi cael ei ddefnyddio i helpu i gyhoeddi teitlau o natur academaidd – llyfrau gan mwyaf, ond cylchgronau weithiau – nad ydynt yn fasnachol hyfyw fel rheol heb gymhorthdal. Disgwylid y byddai'r teitlau hyn fel rheol yn waith staff SAUau Cymru, neu'n waith unigolion yr oedd ganddynt gysylltiad agos â SAUau Cymru.

3 Ar adeg pan fo CCAUC yn wynebu gostyngiad sylweddol yn ei gyllideb, mae'n rhaid i ni flaenoriaethu'r arian sydd ar gael i ni yn llymach fyth: nid yw unrhyw faes cyllido wedi'i eithrio rhag y broses hon. Yn erbyn y cefndir hwn, ac fel rhan o adolygiad eang ei gwmpas o'r holl gyllid a ddarparwn i amryw o gyrff, daeth y Cyngor i'r casgliad ym mis Medi 2010 nad oedd yn gallu cynnal y trefniadau cyllido presennol ar gyfer y Wasg y tu hwnt i 2010/11. Gan roi bron blwyddyn lawn o rybudd i Brifysgol Cymru, cytunwyd y dylai'r cyllid hwn, o 2011/12, gael ei ymgorffori yn nyraniadau cyllid ymchwil (QR) y sefydliadau. Gwneir hyn ar y ddealltwriaeth y gall y sefydliadau, fel y mynnant, ddefnyddio'r cyllid hwn i barhau i gefnogi'r Wasg, os ystyriant fod hyn yn flaenoriaeth academaidd ganddynt.

4 Credwn mai dyma'r peth mwyaf priodol i'w wneud gan nad ydym yn ystyried ei bod hi'n rhan o swyddogaeth graidd CCAUC i gefnogi cyhoeddi academaidd, nac i gefnogi gweithgaredd ysgolheigaidd y tu allan i gyfundrefn prifysgolion Cymru. Drwy drosglwyddo'r arian a roddwyd hyd yma i'r Wasg i gyllid QR y sefydliadau eu hunain, rydym yn galluogi Is-Gangellorion i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch y defnydd mwyaf priodol o'r arian sydd ar gael i'r sector i'w fuddsoddi mewn ymchwil.

5 Dylid nodi hefyd:

- mai dim ond cyfraniad at weithgaredd cyffredinol y Wasg y bu cymhorthdal CCAUC o'r cychwyn cyntaf;

- bod disgwyl i'r Wasg gyhoeddi tua 15 teitl y flwyddyn gyda chymorth cymhorthdal CCAUC. Roedd y mwyafrif o'r teitlau hyn ar dopigau'n ymwneud â diwylliant a hanes Cymru. Fodd bynnag, cymharol ychydig ohonynt a fu yn y Gymraeg (un teitl allan o bymtheg yn 2010/11; dau deitl allan o un ar bymtheg yn 2009/10). Felly mae'n anodd dadlau y bydd tynnu'n ôl gyllid uniongyrchol ar gyfer y Wasg yn tanseilio astudiaethau Cymraeg;

- nad yw CCAUC erioed wedi ymrwymo cyllid i'r Wasg am fwy nag un flwyddyn ar y tro. Bob mis Medi byddai'r Wasg yn darparu rhestr o'r teitlau yr oedd yn bwriadu eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, a byddem yn rhyddhau'r cyllid ar sail y rhestr honno. Fodd bynnag, ymddengys fod y Wasg wedi ymrwymo i gytundebau gydag awduron sawl blwyddyn ymlaen llaw. Rydym yn ystyried bod hyn yn fater rhwng y Wasg a'r awduron y mae wedi cytundebu â hwy, ac mai'r Wasg sy'n gyfrifol am unrhyw ymrwymiadau y mae wedi'u gwneud at y dyfodol ar y dybiaeth y byddai'r cyllid yn parhau.

6 Yr ydym, fodd bynnag, yn cydymdeimlo â sefyllfa awduron sy'n gweithio ym mhrifysgolion Cymru sy'n awgrymu bod ymrwymiadau wedi'u gwneud gan y Wasg ymhell y tu hwnt i gyfnod y cyllid yr ydym wedi cytuno arno. Rydym yn cydnabod eu pryderon.

7 Felly mae Cyngor CCAUC wedi penderfynu heddiw y byddwn yn parhau i dalu'r arian i mewn i ddyraniadau ymchwil y sefydliadau o'r Flwyddyn Academaidd 2011/12 ond y bydd yn cael ei ddefnyddio'n unig at bwrpas cefnogi cyhoeddiadau ysgolheigaidd a gweithgareddau cysylltiedig ym meysydd diwylliant, hanes a llenyddiaeth Cymru. Byddwn yn gwneud hyn am dair blynedd, gan ddechrau yn y Flwyddyn Academaidd 2011/12.

8 Mae hyn yn golygu:

- y bydd y lefel bresennol o gyllid yn cael ei chynnal am dair blynedd arall;
- y bydd yr Is-Gangellorion yn barnu pa waith i'w gefnogi, ac a dylid gwneud hyn drwy'r Wasg neu drwy ffyrdd eraill, gan mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar bwysigrwydd cyfraniadau unigol i strategaethau ymchwil eu prifysgolion;
- y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n unig ar gyfer cefnogi, ym mhrifysgolion Cymru, gyhoeddiadau ysgolheigaidd a gweithgareddau cysylltiedig ym meysydd diwylliant, hanes a llenyddiaeth Cymru.

9 Byddwn yn ysgrifennu at yr Is-Gangellorion i roi rhagor o fanylion maes o law.